

Cofnodion cyfarfod is-bwyllgor y Cabinet ar drefniadau pontio'r UE ar 12 Hydref 2016

Yn bresennol:

- Y Gwir Anrh. Carwyn Jones AC, y Prif Weinidog (Cadeirydd)
- Mark Drakeford AC
- Lesley Griffiths AC
- Kirsty Williams AC
- Alun Davies AC
- Des Clifford, Cyfarwyddwr – Swyddfa'r Prif Weinidog a Swyddfa'r Cabinet
- Peter Greening, Pennaeth Is-adran y Cabinet
- Piers Bisson, Dirprwy Gyfarwyddwr, Trefniadau Pontio Ewropeaidd
- Matt Greenough, Cynghorydd Arbennig
- Andrew Johnson, Cynghorydd Arbennig
- Alex Rawlin, Cynghorydd Arbennig
- Gareth Williams, Cynghorydd Arbennig
- Tom Woodward, Cynghorydd Arbennig
- Damian Roche, Ysgrifenyddiaeth y Cabinet, y Cyfarfod Llawn a'r Pwyllgorau (cofnodion)
- Toby Mason, Cyfarwyddwr Cyfathrebu
- Damien O'Brien, Prif Weithredwr WEFO
- Jonathan Price, Prif Economegydd
- Lindsey Bromwell, Cynghorydd Polisi y Trefniadau Pontio Ewropeaidd
- Michelle Grey, Dirprwy Bennaeth Ysgrifenyddiaeth Polisi'r UE

Ymddiheuriadau:

- Ken Skates AC

Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod blaenorol

1.1. Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol.

Eitem 2: Adborth gan y Grŵp Cynghori ar Ewrop

2.1 Cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol y papur, a oedd yn rhoi crynodeb o drafodaethau cyfarfod cyntaf y Grŵp Cynghori ar Ewrop ar 28 Medi. Y bwriad oedd y byddai hon yn eitem reolaidd ar yr agenda, gan sicrhau bod cyngor y Grŵp yn cael ei gyfathrebu i'r Is-bwyllgor yn uniongyrchol. Byddai cofnod cryno o gyfarfod y Grŵp yn cael ei gyhoeddi'n fuan.

2.2 Adroddwyd bod cyfarfod cyntaf y Grŵp wedi bod yn un calonogol, ac y cafwyd cyfraniadau cadarnhaol gan yr holl aelodau a oedd yn bresennol. Nododd Ysgrifennydd y Cabinet rôl y Grŵp, sef darparu cyngor arbenigol i Lywodraeth Cymru yn hytrach na gweithredu fel pwyllgor craffu. Roedd ehangder a dyfnder yr arbenigedd ar y Grŵp yn golygu bod y swyddogaeth gynghorol hon yn gweddu'n dda iddo, ond mater i'r Cynulliad fyddai craffu ar ddull y Llywodraeth o ymdrin â'r trafodaethau.

2.3 Gwelwyd bod sawl thema allweddol wedi codi o'r cyfarfod cyntaf gan gynnwys: y disgwyliad y byddai yna 'Breimiwm Brexit' gan rai a gefnogodd y bleidlais i ymadael; pwysigrwydd cynllunio senarios ac asesu'r effeithiau economaidd ar Gymru; pwysigrwydd ymgysylltu â Whitehall er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cael cymaint o ddylanwad â phosibl ar yr agenda ymadael; a sicrhau y parheir i ymgysylltu â sefydliadau'r UE.

2.4 Cytunodd yr Is-bwyllgor ar y papur.

Eitem 3: Mynediad i'r Farchnad Sengl

3.1 Cyflwynodd y Prif Weinidog y papur, a roddodd ragor o wybodaeth am agweddau penodol ar y Farchnad Sengl a mynediad iddi.

3.2 Cytunodd yr Is-bwyllgor ar y papur.

Eitem 4: Polisi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit

4.1 Cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol y papur, a oedd yn ystyried y trefniadau ar gyfer Polisi Datblygu Economaidd Rhanbarthol yng Nghymru yn y dyfodol yn dilyn ymadawiad y DU o'r UE.

4.2 Adroddwyd bod Cymru yn cael budd mawr o gronfeydd yr UE ar gyfer datblygu economaidd, a'i bod yn derbyn tua £370m y flwyddyn ar gyfer rhaglenni strwythurol, rhaglenni gwledig a rhaglenni pysgodfeydd am y cyfnod 2014-2020. Roedd Cymru hefyd yn elwa ar gyllid o Raglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd, gwerth tua £6.8m y flwyddyn.

4.3 Roedd y cyhoeddiad diweddar gan y Trysorlys ar 3 Hydref yn gwarantu y byddai'r holl raglenni hyn yn cael eu diogelu tra bo'r DU yn parhau o fewn yr UE. Roedd hynny'n golygu, gan nad oedd disgwyl i Brexit ddigwydd tan 2019, bod disgwyliad rhesymol y byddai'r rhan fwyaf o'r gwariant ar raglenni yn cael ei warchod.

4.4 Cytunodd yr Is-bwyllgor ar y papur.

Eitem 5: Trafodaeth ar y Blaenoriaethau Negodi

5.1 Cyflwynodd y Prif Weinidog y papur, a oedd â'r bwriad o hwyluso trafodaeth ar y cyd, a chytundeb, ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru yng nghanam cyntaf y trafodaethau ffurfiol â Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau datganoledig eraill yn y Cyd-bwyllgor Gweinidogion llawn cyntaf a oedd i'w gynnal ar 24 Hydref.

5.2 Adroddwyd bod cynnydd da wedi ei wneud ar y chwe blaenoriaeth ar gyfer Cymru a nodwyd gan y Prif Weinidog yn dilyn y refferendwm. Roedd y cyllid y cyllidebwyd ar ei gyfer o dan raglenni presennol yr UE wedi ei sicrhau yn dilyn gwarant ddiweddar y Trysorlys. Roedd y Prif Weinidog wedi cael sicrhad gan Brif Weinidog y DU y byddai'r Llywodraethau datganoledig yn chwarae rhan lawn yn y trafodaethau ar ymadawiad y DU o'r UE. Yn ogystal, darparwyd sefydlogrwydd i fusnesau yng Nghymru, a gwarchodwyd swyddi yn y tymor byr drwy ymgysylltu'n helaeth â busnesau Cymru a mewnfuddsoddwyr. Roedd y cynllun hyder busnesau wedi ei lansio hefyd.

5.3 Cytunodd yr Is-bwyllgor ar y papur.

Eitem 6: Ymgysylltu a Chyfathrebu

6.1 Ystyriodd yr Is-bwyllgor y dull o ymdrin â chyfathrebu ac ymgysylltu a amlinellwyd yn y papur, a oedd yn adeiladu ar y trafodaethau cychwynnol a gynhaliwyd yn y cyfarfod blaenorol.

6.2 Cytunodd yr Is-bwyllgor ar y papur.

**Ysgrifenyddiaeth y Cabinet, y Cyfarfod Llawn a'r Pwyllgorau
Hydref 2016**